**Dyddiad:** 29 Medi 1999

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Teitl:** Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol, Amcanion 1 a 3: Targedau

## DIBEN

1. Dyma'r drafodaeth sylweddol gyntaf ar dargedau gan y Pwyllgor. Ei nod yw rhoi ystyriaeth i fethodoleg a phriodoldeb y targedau a geir yn y dogfennau ymgynghorol. Efallai y bydd aelodau am gynnal trafodaeth bellach ar 4 Hydref pan fydd dogfennau diwygiedig y rhaglen ar gael.

## CEFNDIR

2. Cyflwynwyd y papur ynghlwm, Atodiad 1, gan Banel Economegwyr y Tasglu ar gyfer eu cyfarfod ar 28 Medi. Bydd tri o aelodau'r panel hwn - Michael Phelps, David Blackaby a Brian Morgan - yn dod i gyfarfod ein pwyllgor i gyflwyno adborth o gyfarfod y Tasglu a thrafod y papur. Efallai y bydd aelodau'r pwyllgor hefyd am gyfeirio at gofnodion y cyfarfod ar 15 Medi (EDC-05-99-min) lle cafwyd trafodaeth ar y gwahanol fathau o dargedau y dylid eu defnyddio, er enghraifft ansawdd bywyd. Efallai hefyd y bydd aelodau am nodi'r dogfennau a ddarparwyd gan y Fforwm Economaidd Newydd, sydd wedi'u hanfon atynt ar ffurf copi caled (Atodiad 2).

## ADBORTH O GYD-GYFARFODYDD RHWNG Y PWYLLGORAU RHANBARTH A'R PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD

3. Cafwyd cryn drafod yn y cyfarfodydd rhanbarth yngln â thargedau. Roedd croeso cyffredinol i'r ffaith mai Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (GDP) fyddai'r prif ddangosydd. Mynegwyd pryder y gallai targedau cenedlaethol aflunio datblygiadau (ee canolbwyntio ar ardaloedd lle'r oedd cynnydd yn haws), ac na fyddai hynny'n newid y gwahaniaethau rhanbarthol. Roedd cefnogaeth gref i dargedau rhanbarthol (a hyd yn oed targedau awdurdodau lleol).

Val Feld

Cadeirydd

Pwyllgor Datblygu Economaidd

Medi 1999

**Atodiad 1**

**Y PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD**

**CRONFEYDD STRWYTHUROL EWROPEAIDD: TARGEDAU**

**Adroddiad Panel yr Economyddion**

**Cyflwyniad**

Mae'r Pwyllgor yn dymuno ystyried y targedau a allai gael eu gosod ar gyfer perfformiad economi Cymru, gan ystyried y cyllid sydd ar gael trwy Amcan 1 a rhaglenni Cronfeydd Strwythurol eraill. Mae hwn yn adroddiad ar y gwaith sy'n digwydd yn y maes hwn, gan adlewyrchu barn Panel o Economyddion a gasglwyd ynghyd gan swyddogion (mae aelodaeth y Panel wedi'i chynnwys yn Atodiad A).

**Targedau / Amcanion Strategol**

**Ai CMC y pen yw'r targed strategol sengl iawn?**

2. Mae'r ddealltwriaeth o CMC y pen yn dda, gellir ei fesur yn weddol ddibynadwy a dyma'r maen prawf sengl cyfredol ar gyfer bod yn gymwys i dderbyn cyllid Amcan Un. Ond y mae ganddo hefyd ddiffygion hysbys, gan gynnwys:

i. mae'n mesur allbwn a gynhyrchir mewn ardal, nid yr incwm a dderbynnir gan y bobl yn yr ardal honno;

ii. ar lefel ranbarthol yn y DU, nid yw'n ystyried amrywiaethau rhanbarthol mewn costau byw;

iii. mae'n eithrio'r rhan fwyaf o'r agweddau 'da' a 'gwael' nad ydynt yn cael eu marchnata.

3. Yn benodol, mae'r rhan fwyaf o effeithiau amgylcheddol, boed yn dda neu'n wael, yn cael eu heithrio o CMC. Felly, gallai ceisio targed CMC yn ddiwyro olygu peryglon amgylcheddol. Felly, dylid edrych ar y targed CMC ochr yn ochr â strategaeth Datblygu Cynaliadwy'r Cynulliad. Fel a nodir isod, mae posibilrwydd weithiau o sefyllfa lle na ellir colli, lle gall gwella'r amgylchedd, trwy gynyddu atyniad ardal, helpu i wella ei CMC.

4. **Gallai** effeithiau cymudo olygu bod safonau byw trigolion ardal yn sylweddol uwch neu is mewn gwirionedd na'r hyn a nodir gan y ffigurau CMC. Gallai fod yn werthfawr hefyd i fonitro mesuriad mwy uniongyrchol o safonau byw sy'n seiliedig ar drigolion – megis yr Arian sydd gan y Teulu i'w Wario y pen.

**CMC**

5. Er hynny mae canolbwyntio ar CMC yn gwneud synnwyr, cyhyd ag y bo'r pryderon hyn yn cael eu cadw mewn cof. **Nid oes amheuaeth bod y targed CMC y pen – i gyrraedd 90% o gyfartaledd y DU - yn her.** Mae maint yr her yn dibynnu ar yr union fan cychwyn, a hefyd ar gyflymder twf economi'r DU ei hun.

**i. Man Cychwyn**

6. Y rhif swyddogol diweddaraf yw'r un ar gyfer **1997** ac y mae'n nodi CMC y pen i Gymru ar 82% o gyfartaledd y DU. Rhagolwg diweddaraf Cambridge Econometrics ar gyfer CMC Cymru yn y flwyddyn **2000** yw 81% (cynnydd sylweddol ar y rhagolwg blaenorol o 78%). Mae rhagolwg BSL ychydig yn fwy optimistig yngln â Chymru yn gyffredinol. Yn absenoldeb unrhyw wybodaeth well (ac yng ngoleuni'r amrywiadau yn y rhagolygon, sydd yn ehangach na'r amrywiadau nodweddiadol mewn canlyniadau gwirioneddol), y dybiaeth fwyaf syml yw mai'r man cychwyn yn **2000** fydd CMC y pen i Gymru o 82% o gyfartaledd y DU.

**ii. Cyfraddau twf**

7. O'r man cychwyn hwn, er mwyn cyflawni CMC y pen i Gymru o 90% o gyfartaledd y DU erbyn y flwyddyn 2010, byddai gofyn i'r twf yng Nghymru (y pen) fod yn fwy na thwf y DU o tua 1 pwynt canran y flwyddyn. Byddai twf Cymru yn gyffredinol felly yn dibynnu ar gyflymder twf y DU.

8. Mae rhagweld twf hirdymor (h.y. degawdau) yn ddull hynod o anfanwl. Mae cyfradd twf hirdymor y DU wedi bod rhywle rhwng 2¼% a 2½% y flwyddyn. Mae Cambridge Econometrics yn rhagweld twf o 2.7% rhwng 2000 – 2010, sydd ychydig yn uwch. Gallwn ddod i'r casgliad y

bydd yn rhaid i dwf y pen fod o fewn yr amrediad 3¼% - 3¾%, oni bai fod gwahaniaeth sylweddol yn sefyllfa’r man cychwyn o’i gymharu â’r sefyllfa hysbys ddiwethaf, neu os bydd economi’r DU yn tyfu’n sylweddol gyflymach na’r cyfartaledd dros gyfnod hir.

9. Efallai nad yw’r cyfraddau twf hyn yn ymddangos yn fawr, ond maent yn cynrychioli cyfradd sydd tua 50 y cant yn uwch na chyfartaledd cyfnod hir Cymru, ac nid yw economi Cymru wedi profi **degawd** o dwf ar y cyfraddau hyn trwy gydol y cyfnod ers y rhyfel byd cyntaf. Serch hynny, nid yw’r cyfraddau twf hyn yn ddigynsail yn rhanbarthau’r DU. Yn ôl amcangyfrifon Cambridge Econometrics cafwyd twf yn East Anglia (er y cydnabyddir mai dyma un o’r rhanbarthau sy’n perfformio orau yn y DU) o 3.0 y cant y flwyddyn yn yr 1970au, a 4.0 y cant y flwyddyn dros yr 1980au. Yn yr 1980au tyfodd Dwyrain Canolbarth Lloegr a De-Orllewin Lloegr hefyd dros 3 y cant, a llwyddodd Cymru, yn ôl Cambridge Econometrics i gyrraedd 2.9 y cant y flwyddyn. Profodd y rhan fwyaf o wledydd Ewrop, ac eithrio’r DU, dwf CMC blynyddol y pen o dros 3 y cant rhwng 1950 a 1973 – er nad oes llawer wedi ei brofi ers hynny, ac eithrio Iwerddon ers 1987. Profodd economïau

De-Ddwyrain Asia gyfraddau twf llawer cyflymach yn ystod eu cyfnod o dwf cyflym.

**10. Yr ydym yn casglu bod y targedau yn her, ond nid ydynt yn amhosibl. Er hynny er mwyn eu cyflawni bydd angen atal y tueddiad a’r polisïau er mwyn rhyddhau’r holl adnoddau sydd ar gael. Ni fydd y polisïau cyfredol ar y raddfa gyfredol yn atal y tueddiad.**

11. Oherwydd bydd angen amser ar y polisïau er mwyn iddynt ddangos canlyniadau ffafriol, mae’n rhaid gofyn a fydd hi’n bosibl, o ddechrau yn y flwyddyn 2000, i godi CMC y pen yng Nghymru i 84% o gyfartaledd y DU erbyn 2002.

**Targedau Eraill**

12. Ni all Cynulliad Cenedlaethol Cymru a’r sefydliadau partner reoli lefel CMC y pen yn uniongyrchol. Felly, efallai y byddai’n fwy synhwyrol i ddisgrifio’r targedau CMC fel amcanion dymunol. Ond os ydym am gyflawni’r amcanion hyn, mae angen newid ffactorau eraill sydd â chysylltiad agosach â’r polisïau lleol sydd ar gael. Os yw CMC y pen i godi yna mae’n rhaid i naill ai un o ddau beth ddigwydd, neu mae’n rhaid i’r ddau ddigwydd sef: cyfran uwch o’r boblogaeth mewn gwaith, neu allbwn uwch gan bob person a gyflogir. Mae’r ddogfen ymgynghori ‘Cynigion ar gyfer Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol’ yn cynnig ‘Targedau Cysylltiedig’ ar gyfer y ddau.

13. Gellir dadelfennu’r bwlch yn CMC y pen Cymru i ddwy elfen at ddibenion eglurhaol: y cyntaf yw yr hyn y byddai CMC y pen wedi bod pe byddai cyfraddau cyflogaeth Cymru yn hafal i rai y DU, a’r allbwn cyfartalog i bob person a gyflogid wedi aros ar y lefel gyfredol; yr ail yw yr hyn y byddai’r bwlch wedi bod pe byddai’r cyfraddau cyflogaeth wedi aros fel ag y maent ond

bod yr CMC i bob person a gyflogir yr un peth ag CMC y DU. Mae union faint pob bwlch yn dibynnu ar yr union ddull a ddefnyddir i fesur cyflogaeth, ond does dim amheuaeth nad yw lefelau cynhyrchiant cymharol a'r gwahaniaeth yn y cyfraddau cyflogaeth, y naill a'r llall, yn egluro rhan sylweddol o'r bwlch.

14. Dylid nodi mai **anweithgarwch** uchel yn hytrach na **diweithdra** uchel sy'n egluro'r cyfraddau cyflogaeth isel.

15. Byddai codi CMC cymharol Cymru bron yn sicr o olygu cymryd camau i wella perfformiad cynhyrchiant a chodi cyfraddau cyflogaeth. Y cwestiwn hanfodol o safbwynt polisi yw darganfod lle yn union y byddai'r camau hyn yn cael yr effaith fwyaf. Gallai canolbwyntio ar un agwedd yn unig fod yn gam gwrth-gynhyrchiol. Yn yr 1980au cynnar, er enghraifft, gwellodd cynhyrchiant cymharol Cymru (yn gysylltiedig â cholli swyddi mewn gweithgynhyrchu, yn enwedig y gweithfeydd dur), ond, oherwydd y disgynnodd cyfraddau cyflogaeth cymharol Cymru nid oedd llawer o symud yn CMC cymharol Cymru y pen. Yn yr un modd os bydd cyfraddau cyflogaeth Cymru yn symud yn agosach at lefel y DU, ac os bydd y cynhyrchiant cymharol yn lleihau, yna ychydig iawn o welliant a geir yn CMC cymharol Cymru, os o gwbl. Mae'n ddiddorol nodi bod arolwg diweddar gan OECD o economi Iwerddon (OECD Mai 1999) yn dod i'r casgliad y gellir priodoli'r cynnydd pennaf yn nhwf Iwerddon ar ôl 1987 i gynnydd yn nifer y gweithwyr a gwelliant yn ansawdd y gwaith, a hynny ar ben cyfraddau twf oedd eisoes yn bodoli oherwydd cynhyrchiant uchel.

16. Mae'r cwestiynau hanfodol yn ymwneud â phenderfynyddion gwaelodol y cyfraddau cyflogaeth a'r twf mewn cynhyrchiant.

**i. Cyfraddau Cyflogaeth**

17. Un o brif benderfynyddion y gyfradd gyflogaeth yw'r galw am lafur. Y mae'n ganfyddiad cyffredin, o leiaf ers yr 1960au, nad yw pwysau'r galw yng Nghymru, yn wahanol i Dde-Ddwyrain Lloegr, yn ddigon uchel i sicrhau cyflogaeth lawn. Mae mewnfuddsoddwyr newydd sy'n cynnig swyddi da, yn nodweddiadol wedi derbyn ceisiadau niferus am swyddi, a'r unig adeg yr oedd yn ymddangos bod Cymru yn dechrau gor-dwymo oedd yn ystod cyfnod ffyniannus yr 1980au hwyr yn y Gogledd-Ddwyrain a'r De-Ddwyrain.

18. Byddai galw uwch am nwyddau o Gymru, boed gan gwsmeriaid y tu allan i'r DU, neu'r tu allan i Gymru, neu o fewn Cymru, os byddai'n gynaliadwy, yn cynyddu CMC. Mae'r offerynnau polisi sydd ar gael yn lleol, er mwyn codi'r galw cyfansymiol yn uniongyrchol, ychydig yn gyfyngedig. Fodd bynnag mae defnyddioldeb dulliau megis cynyddu gwariant y llywodraeth yn gyfyngedig o ran cynhyrchu twf cynaliadwy, er ei fod yn briodol i leddfu amrywiadau byrdymor yn y galw cyfansymiol. Felly, er mwyn cynhyrchu mwy o alw am gynnyrch o Gymru – a llafur Cymru o ganlyniad – rhaid gwneud cynnyrch Cymru yn fwy deniadol a chystadleuol i brynwyr yng Nghymru a thu hwnt. Bydd ymatebion priodol yn cynnwys camau i hyrwyddo datblygiadau

newydd a datblygu cynnyrch. Mae'n rhaid i'r broses o wneud iawn am unrhyw fethiannau yn y farchnad sy'n rhwystro mynediad i'r marchnadoedd ehangach chwarae rôl. Hefyd mae gan hyrwyddo allforion ran i'w chwarae yma.

19. Er hynny, mae'n debyg bod pwysau isel parhaus y galw am lafur wedi achosi problemau o du y cyflenwyr. Mae'r ugain mlynedd diwethaf wedi gweld lleihad yn y galw am lafur di-fedr, a gwaith llaw lled-fedrus ac ailstrwythuro diwydiannol helaeth. Mae dynion canol-oed (45+) o'r math hwn o gefndir yn fwyfwy tebygol o ddod yn anweithgar, yn aml yn derbyn budd-daliadau oherwydd salwch, yn hytrach nag yn ddi-waith. Mae cyfres gymhleth o rymoedd ar waith yma, o ran cymhelliant i weithio, cyfleoedd i ailhyfforddi, a syniadau yngln ag argaeledd gwaith. Ar yr un pryd, er bod cyfraddau cyflogaeth merched wedi codi yng Nghymru, maent yn dal yn is na'r gyfradd yn y DU.

20. Mae'r rhwystrau i godi cyfraddau cyflogaeth merched yn cynnwys anawsterau â chyfleusterau gofal plant, lleoliad cyfleoedd gwaith, y patrymau gweithio a gynigir etc. Mae'r sefyllfa ddemograffig yng Nghymru yn wahanol iawn i'r hyn a geir yn Iwerddon, lle ceir gormodedd o bobl ifanc yn symud i'r farchnad lafur a lefelau uchel o ddiweithdra mesuradwy. Un o nodweddion cynyddol y sefyllfa yng Nghymru yw cynnydd yn y bobl ganol-oed sy'n anweithgar yn economaidd, ynghyd â lefelau diweithdra mesuredig sy'n is o lawer na lefelau'r 1980au cynnar.

21. Er mwyn gwella'r cyfraddau cyflogaeth bydd angen camau i godi'r galw am lafur, a chamau i hybu cyflenwad, gan gynnwys camau i sicrhau'r medrau priodol (gan gynnwys ailhyfforddi).

**ii. Cynhyrchiant**

22. Mae angen cadw dau bwynt pwysig mewn cof:

> a. Gellir priodoli'r rhan fwyaf o'r bwlch mewn cynhyrchiant i strwythur diwydiannol a galwedigaethol Cymru yn hytrach nag i'r syniad bod gweithwyr Cymru yn llai cynhyrchiol mewn galwedigaeth neu ddiwydiant penodol;
>
> b. Os bydd cyfraddau cyflogaeth yn cynyddu, gallai cynhyrchiant cyfartalog leihau os yw'r gweithwyr / swyddi newydd yn llai medrus ac mewn galwedigaethau ar lefelau is. Mae cynnal y lefelau presennol o gynhyrchiant cyfartalog mewn perthynas â'r DU o dan yr amgylchiadau hyn yn galw am **gynnydd** mewn perfformiad yn y gweithgareddau sefydledig.

23. Yn yr achos hwn mae gwahaniaethau pwysig rhwng y sectorau gweithgynhyrchu a gwasanaethau o ran cynhyrchiant. Yn gyffredinol, mae cynhyrchiant cyfartalog mewn gweithgynhyrchu wedi bod uwchlaw cyfartaledd y DU tra bod cynhyrchiant y sector gwasanaethau yn sylweddol is na chyfartaledd y DU. Er y gellir disgwyl i allbwn a

chynhyrchiant gweithgynhyrchu gynyddu, nid yw'n debygol y ceir twf cyflogaeth sylweddol: mae'n debygol y bydd bron i 90% o swyddi newydd yn dod o'r sector gwasanaethau. Felly efallai y bydd angen i ni feddwl am dargedau gwahanol ac ymagweddau gwahanol ar gyfer datblygu'r ddau sector hyn.

24. Mae dealltwriaeth dda o'r agenda strwythurol yma. Er mwyn codi cynhyrchiant mae angen denu a/neu ehangu diwydiannau newydd priodol a galwedigaethau ar lefelau uwch. Mae'r diwydiannau hynny sydd â'r potensial i orlifo yn haeddu'r gefnogaeth fwyaf. Mewn cyd-destun mwy eang mae cynhyrchiant llafur yn dibynnu ar gyfalaf yn ôl gweithiwr, medrau'r gweithlu ac effeithlonrwydd o ran defnyddio'r mewnbynnau a chreu cynhyrchion newydd a chanddynt werth ychwanegol uchel. Mae hyn yn awgrymu agenda sy'n hybu buddsoddi, gwella medrau, gan gynnwys medrau rheoli, a chefnogi datblygiadau newydd (gan gynnwys Ymchwil a Datblygu).

25. Gallai fod o werth nodi bod llawer o'r twf yn niwydiannau newydd y DU yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf wedi digwydd yn yr hyn a elwir 'ardaloedd gwledig hygyrch' – fel arfer trefi a dinasoedd bach (ee Witney, Cambridge etc). Mae sawl ffactor ar waith yma – gan gynnwys costau tagfeydd a diffyg argaeledd safleoedd yn ardaloedd y dinasoedd mawr traddodiadol. Ond yn ddi-os un ffactor yn y mater hwn yw ansawdd y bywyd sydd ar gael yn yr ardaloedd hyn. Gall gwella'r amgylchedd fod yn atyniadol o ran denu diwydiannau newydd, a thrwy hynny fanteision economaidd sylweddol, yn ogystal â bod yn rhinwedd ynddo'i hun.

**Gweithgarwch a swyddi**

26. Y cwestiwn mawr yw pa gyfnewidiadau polisi, heblaw am yr hyn sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd, y gellir eu cyflwyno i ddwyn effaith naill ai ar godi cyfraddau cyflogaeth neu ar wella twf cynhyrchiant. Mae'r ddogfen ymgynghori yn canolbwyntio'n bennaf ar gynyddu'r gyfradd gyflogaeth (mae'r targedau a argymhellir ar gyfer swyddi ac anweithgawrch yn seiliedig yn eu hanfod ar y dybiaeth y gellir cau'r bwlch presennol yn y gyfradd gyflogaeth). Nid oes dwywaith amdani na fu methiant yn y gorffennol o ran cydnabod y broblem o anweithgarwch a sefydlu camau penodol i fynd i'r afael â hi. Ond bydd y dasg o gadw'r sefyllfa cynhyrchiant presennol ar lefel gymharol â'r DU yn dasg enfawr os na fydd y gyfradd gyflogaeth yn cynyddu. Bydd angen dulliau arloesol i wella medrau'r gweithlu ac i annog entrepreneuriaeth.

**Cyfle Cyfartal**

27. Nid yw'r ddogfen drafod yn cynnig targedau penodol ar gyfer cyfle cyfartal. Mae'r sefyllfa yng Nghymru, ac yn wir yn y DU yn gyffredinol, rywfaint yn wahanol i gyfartaledd yr Undeb Ewropeaidd. Mae cyfraddau diweithdra merched (boed yn seiliedig ar LFS neu ar gyfrif hawlwyr) yn is na chyfraddau diweithdra dynion, ac mae cyfraddau cyflogaeth merched – er eu bod yn is na chyfraddau dynion ar gyfer Cymru a'r DU - yn sylweddol uwch na chyfartaledd yr Undeb Ewropeaidd. Ond adlewyrchir anfantais y farchnad lafur mewn anweithgarwch uchel ac

enillion cymharol isel. Gallai fod yn werthchweil gosod targedau ar gyfer cyfraddau gweithgarwch merched ac enillion cymharol.

28. Ar hyn o bryd mae'r LFS yn dangos bod 68% o ferched o oed gweithio yn anweithgar yn economaidd, o gymharu â 72.5% yn y DU yn gyffredinol a 7% o ddynion yng Nghymru. Byddai targed o 72.5% ar gyfer 2010 yn bosibl (gan gydnabod nad yw bob merch yn dymuno bod yn weithgar yn economaidd trwy gydol eu bywyd 'gwaith'). Byddai targedau canolradd o 69% erbyn 2002, a 71% erbyn 2006 yn synhwyrol.

29. Mae enillion cyfartalog merched yng Nghymru yn 74% o enillion dynion. Yn y DU y ffigur yw 73%, ond mae hyn yn adlewyrchu enillion isel dynion Cymru yn hytrach nag enillion uchel merched Cymru. Mae enillion merched yng Nghymru yn 91% o lefel y DU, ond yn weddol debyg i'r lefelau yn yr Alban ac yn Lloegr, y tu allan i Lundain, y De-Ddwyrain a'r Dwyrain. O dan yr amgylchiadau byddai codi enillion merched yng Nghymru o 74% o enillion dynion i 78% erbyn 2010 yn darged realistig, gyda chamau yn y cyfamser o 75% erbyn 2002, 76.5% erbyn 2006 a 78% erbyn 2010.

30. [Yr ydym yn ymchwilio i weld a allai LFS ddarparu data anableddau, ond mae'r data ar leiafrifoedd ethnig yn seiliedig ar sampl sy'n rhy fach i fod yn ddefnyddiol].

**Targedau canolradd**

31. Roedd y ddogfen drafod yn argymell y dylid cael dangosyddion canolradd i helpu i farnu'r cynnydd a wnaethpwyd ar bolisïau. Nid yw'n amlwg mai'r Strategaeth Datblygu Genedlaethol yw'r lle gorau ar gyfer targedau o'r fath, sydd yn fwy priodol yn is i lawer yn yr hierarchaeth strategaethau a dylent fod yn gysylltiedig â pholisïau neu sefydliadau penodol. Ond yr ydym yn rhestru isod rai dangosyddion cynnydd – fel y byddai'n well gennym eu galw - mewn ardaloedd penodol. Maent ymhell o fod yn gynhwysfawr, ond byddent yn darparu system wirio ar lefel is er mwyn dangos a ellir disgwyl i bolisïau gyflawni'r amcanion.

| | |
|---|---|
| **Datblygu Medrau ac Adnoddau Dynol:** | Cyfran y bobl ag NVQ lefel 3 a 4 i godi i lefelau'r DU |
| | Nifer y cwmnïau sydd ag achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl i gyrraedd lefelau'r DU (i bob menter a gofrestrwyd ar gyfer TAW – os yw'n fesuradwy). |
| | Codi cyfran y gweithlu sy'n cyflawni gweithgareddau proffesiynol neu reolaethol? |
| **Niferoedd y busnesau bach a chanolig:** | Nifer y cwmnïau a gofrestrwyd ar gyfer TAW i gynyddu 1000 y flwyddyn rhwng 2000 a 2010. |
| | Cynnydd o draean yn lefel y cofrestriadau newydd, sef o'r lefel bresennol o tua 6000 (1994 – 97) i 8000. |
| **Allforion busnesau bach a chanolig:** | Anawsterau data wrth ddiffinio unrhyw waelodlin (yn disgwyl data Tollau Tramor a Chartref o bosibl) |
| **Datblygiadau newydd:** | Codi'r gymhareb rhwng Ymchwil a Datblygiad y Busnesau ac CMC gan o leiaf hanner, gan gadw cyfraddau Ymchwil a Datblygu Addysg Uwch a'r Llywodraeth o leiaf fel ag y maent. |
| | Cyfran o'r busnesau a gofrestrwyd ar gyfer TAW sy'n cyflawni ISO1401 a 9000 i gyrraedd lefelau cyfartalog y DU |
| **Gwerth Ychwanegol:** | Yn anodd dod o hyd i unrhyw ddangosydd mesuradwy heblaw am gynhyrchiant |
| **Datblygu Cymunedol:** | Ymchwilio i'r posibilrwydd o ddatblygu cofrestr o sefydliadau cymunedol a sefydliadau gwirfoddol ym mhob awdurdod unedol erbyn 2002. |

32. Mae’r ymdrechion i lunio dangosyddion ystyrlon wedi pwysleisio’r diffyg ystadegau a chanddynt sail dda i hwyluso dewisiadau polisi ar gyfer economi Cymru. Efallai felly y dylem ychwanegu targed ychwanegol ar gyfer gwella ystadegau economaidd.

33. Yn olaf, mae’n bwysig cydnabod bod ein gwybodaeth yngln ag effeithiolrwydd y gwahanol ymyriadau polisi yn dal i fod yn eithaf cyfyngedig. Mae’n bwysig iawn ein bod yn archwilio ac yn gwerthuso ein polisïau yn barhaus i ddarganfod yr hyn sy’n gwneud gwir wahaniaeth. Felly, ni ddylid ystyried targedau a pholisïau yn rhai na ellir eu newid, ond yn hytrach dylid eu defnyddio fel canllawiau cychwynnol y gellir eu haddasu yng ngoleuni gwell gwybodaeth.

Medi 1999.

**ATODIAD A**

**PANEL YR ECONOMEGWYR**

**AELODAETH**

Lynn Mainwaring (Prifysgol Abertawe)

David Blackaby (Prifysgol Abertawe)

Grenville Jackson (CHM y Canolbarth)

Brian Morgan (Ysgol Fusnes Caerdydd)

Calvin Jones (Ysgol Fusnes Caerdydd)

Steven Hill (Awdurdod Datblygu Cymru)

David Rennie (Awdurdod Datblygu Cymru)

Nerys Fuller-Love (Prifysgol Aberystwyth)

**Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru:**

Michael Phelps

Jonathan Price

Gareth Edwards

Allan Moss